

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

<b>Enw / Name:</b>	Meilyr Rowlands
<b>Rôl / Role:</b>	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
<b>E-bost / Email:</b>	<a href="mailto:Prifarolygydd@estyn.llyw.cymru">Prifarolygydd@estyn.llyw.cymru</a>
<b>Rhif Ffôn / Tel No:</b>	02920 446 446
<b>Dyddiad / Date:</b>	28 Tachwedd 2019
<b>Pwnc / Subject:</b>	Ymgynghoriad ynghylch cynigion i sicrhau y gall pob dysgwr fanteisio ar y cwricwlwm llawn

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;

- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Cyflwyniad

Mae Estyn yn croesawu'r cynnig i sicrhau y gall pob dysgwr fanteisio ar y cwricwlwm llawn. Cytunwn y dylai fod yn ofynnol i'r holl blant a phobl ifanc mewn ysgolion a gynhelir astudio Addysg Grefyddol (AG) ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn y cwricwlwm newydd. Credwn ei fod yn ategu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gael system addysg gwbl gynhwysol lle caiff pob dysgwr gyfle teg i gael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i gymryd rhan mewn dysgu, cael budd ohono a'i fwynhau. Hefyd, mae'r cynnig yn ategu uchelgeisiau pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru, yn enwedig datblygu plant a phobl ifanc yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus Cymru a'r byd.

Felly, er mwyn sicrhau'r hawl uchod i ddysgwyr, derbyniwn y dylid dileu hawl bresennol rhieni i dynnu eu plant yn ôl o wersi AG ac ACRh. Mae'r sefyllfa bresennol yn galluogi rhieni i benderfynu tynnu'u plant yn ôl o wersi Addysg Grefyddol ac, felly, mae'n atal ychydig bach iawn o ddysgwyr rhag elwa o'r dysgu sy'n eu helpu i ddatblygu goddefgarwch, empathi a dealltwriaeth o wahanol bobl, diwylliannau a chymunedau – ac i ddeall eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill. Yn yr un modd, mae tynnu plant a phobl ifanc yn ôl o wersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn atal ychydig bach iawn o ddysgwyr rhag archwilio'r amrywiaeth fawr o faterion cymdeithasol, moesol, diwylliannol, corfforol ac emosiynol yn llawn, a hynny mewn amgylchedd diogel, gyda chefnogaeth.

Mae Estyn yn cefnogi:

- y cynnig bod pob plentyn a pherson ifanc yn astudio AG ac ACRh.
- dileu hawl rhieni i dynnu dysgwyr yn ôl o AG ac ACRh yn y cwricwlwm newydd.
- ymagwedd amlblwyfol at addysgu Addysg Grefyddol (un sy'n ystyried holl brif grefyddau a bydolygon y byd) a fydd yn helpu i greu dinasyddion gwybodus, egwyddorol.
- cyflwyno ACRh fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd statudol a fydd yn helpu i ehangu'r profiad dysgu a chynyddu'r pwyslais a roddir ar hawliau, cydberthnasoedd, tegwch ac emosiynau.
- cyflwyno'r fframwaith newydd ategol ar gyfer Addysg Grefyddol.
- cynnig y bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol ar ACRh mewn ffordd sy'n briodol o ran oedran ac yn ddatblygiadol briodol i ddysgwyr o bob oedran.
- newid enw'r maes hwn o'r cwricwlwm i adlewyrchu'r cwmpas ehangach y mae'r cwricwlwm newydd yn ei gynnig, ond y dylai'r unigol, 'crefydd', (fel cysyniad) gael ei ddefnyddio mewn unrhyw deitl, yn hytrach na'r lluosog 'crefyddau', a allai arwain at addysgu crefyddau gwahanol ar wahân a chanolbwyntio ar wahaniaethau, yn hytrach na nodweddion tebyg a chysylltiadau.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried:

- mynnu bod gan ysgolion bolisiau ar AG ac ACRh sy'n amlinellu ymagwedd yr ysgol at y naill a'r llall yn glir, a sut mae'r ysgol yn cyfleu'r ymagwedd hon i rieni/gofalwyr.
- rhoi arweiniad a chymorth clir i ysgolion gynllunio dysgu ac addysgu effeithiol ym meysydd AG ac ACRh.
- y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer AG ac ACRh, gan gynnwys nid yn unig ymagweddau penodol i bwnc/disgyblaeth, ond cefnogaeth ehangach i helpu arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cymorth i fynd i'r afael â materion sensitif ac anodd posibl.
- sut mae'n sicrhau y bydd unrhyw arweiniad ac adnoddau'n cael eu cyhoeddi ar yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg i osgoi unrhyw effaith negyddol ar ddysgu ac addysgu neu gyfleoedd datblygu proffesiynol.

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**Nodwch o ba un o'r grwpiau rhanddeiliaid canlynol rydych chi'n ymateb:**

Plentyn neu berson ifanc	<input type="checkbox"/>
Rhiant/gofalwr	<input type="checkbox"/>
Aelod teuluol arall	<input type="checkbox"/>
Ysgol, athro, llywodraethwr	<input type="checkbox"/>
Ymarferwr addysg arall	<input type="checkbox"/>
Sefydliad neu gorff cynrychioliadol	<input checked="" type="checkbox"/>
Unigolyn	<input type="checkbox"/>
Arall	<input type="checkbox"/>

**Cwestiwn 1 – Pa oblygiadau fyddai i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr ac ysgolion pe byddai gofyn i bob dysgwr gael gwersi AG a/neu ACRh yn y cwricwlwm newydd?**

Defnyddiwch y gofod isod ar gyfer eich sylwadau:

#### **Dysgwyr**

Ar y cyfan, bydd dysgwyr 3-16 oed yn elwa o'r newid oherwydd bydd yn rhoi hawl statudol iddynt oll gael AG ac ACRh.

Gallai AG barhau i gael ei haddysgu yn y cwricwlwm newydd fel pwnc ar wahân neu ei haddysgu'n fwy integredig e.e. o fewn y dyniaethau. Sut bynnag y mae ysgolion yn dewis ei haddysgu, bydd disgyblion yn elwa o'r ymagwedd amlblwyfol a gynigir at addysgu AG ac o'r cysylltiadau y gellir eu gwneud â meysydd eraill eu dysgu. Trwy astudio AG, bydd yn helpu disgyblion i ddod yn ddinasyddion egwyddorol a

gwybodus Cymru a'r byd ehangach.

Lle yr amlygwyd arfer dda trwy arolygu ac ymweliadau adolygiadau thematig ag ysgolion yn ddiweddar, mae'r effaith hon eisoes i'w gweld. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion eisoes yn ymateb yn dda i gwestiynau sylfaenol. Er enghraifft, trafodant gwestiynau mawr fel 'Y creu neu esblygiad?' a 'Beth yw pwrpas bywyd?' gan fanteisio'n aeddfed ar eu gwybodaeth am grefyddau gwahanol a safbwyntiau personol. Mae llawer o ddisgyblion yn cynnig rhesymau ystyriol dros eu barn ac yn gwrando'n barchus ar farn ddisgyblion eraill. Mewn llawer o ysgolion, mae gwersi addysg grefyddol yn helpu disgyblion i ddod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus Cymru a'r byd. (Estyn 2018)

Mae llawer o ddisgyblion o'r farn bod addysg grefyddol yn eu helpu i ddeall yr hyn sy'n debyg rhwng pobl, a'r gwahaniaethau rhyngddynt, yn well ac i ddysgu parchu hyn. (Estyn 2018). Byddai'r cynigion hyn yn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael y buddion hyn.

O ran ACRh, nodom y canlynol yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y Cwricwlwm drafft i Gymru:

'Bydd cyflwyno [ACRh] fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd statudol yn helpu i ehangu'r profiad dysgu a chynyddu'r pwyslais ar hawliau, cydberthnasoedd, tegwch ac emosiynau.'

Ar hyn o bryd, ychydig bach iawn o ddisgyblion sy'n cael eu tynnu'n ôl o AG neu ACRh, neu'r ddwy, gan eu rhieni/gofalwyr. Gall fod goblygiadau negyddol i blant y mae eu rhieni/gofalwyr yn dewis eu tynnu o addysg mewn ysgol a gynhelir o ganlyniad i'r newid yn y gyfraith, yn enwedig os bydd y rhiant yn gwneud hyn yn erbyn dymuniadau'r plentyn.

### **Rhieni/gofalwyr**

Bydd y newidiadau arfaethedig i'r gyfraith yn her i ychydig bach o rieni/gofalwyr gan eu bod, ar hyn o bryd, yn arfer eu hawl i dynnu'u plentyn yn ôl o AG neu ACRh, am resymau crefyddol neu foesol fel arfer. Byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru'n ystyried ffordd o gyfleu gwybodaeth glir am y rheswm dros ddileu'r hawl i dynnu'n ôl, yr hyn y gall rhieni/gofalwyr ddisgwyl y bydd eu plant yn ei ddysgu a sut gallai'r ymagwedd at addysgu AG ac ACRh fod yn wahanol i'w profiad addysgol eu hunain.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried mynnu bod gan ysgolion bolisiau ar AG ac ACRh sy'n amlinellu ymagwedd yr ysgol at y naill a'r llall yn glir. Hefyd, gallai fod yn ddefnyddiol pe bai gofyn i ysgolion ddarparu i rieni gynlluniau'r ysgol ar gyfer profiadau dysgu ar wahân mewn AG ac ACRh (er y dylid nodi bod profiadau dysgu mewn AG ac ACRh yn debygol hefyd o ddigwydd yn achlysurol ar draws y cwricwlwm). Mae'n bosibl y byddai gallu darllen polisiau a chynlluniau'r ysgol ar AG ac ACRh yn helpu i leddfu pryderon sydd gan rieni/gofalwyr am yr hyn sy'n cael ei addysgu neu sut y caiff hynny ei addysgu, os bydd yr hawl i dynnu'n ôl yn cael ei dileu.

Yn achos AG, bydd yn arbennig o bwysig rhannu'r materion a'r pynciau a drafodir ar

lefel leol gyda theuluoedd i'w helpu i ddeall yr ymagwedd amlblwyfol at addysgu AG. Pan gaiff AG ei haddysgu'n dda, gall chwarae rhan bwysig yn gwella cydberthnasoedd cymunedol, fel y gwelir yn yr enghraifft isod o'n hadroddiad o 2018 ['Addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3'](#).

'Mewn ardaloedd aml-ffydd yng Nghymru, gall darpariaeth ysgol ar gyfer addysg grefyddol fod â rhan bwysig mewn gwella cydlyniad cymunedol. Er enghraifft, mewn un ysgol yng Nghaerdydd, mae staff yn teimlo bod gwaith addysg grefyddol yr ysgol wedi helpu'r gymuned i fynd i'r afael â phroblemau hiliaeth, gyda disgyblion yn addysgu aelodau eraill o'u teulu am hawliau a'r angen i barchu gwahanol safbwyntiau.' (Estyn 2018)

'Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae addysg grefyddol yn helpu ysgolion i fod â rhan mewn cryfhau cydlyniad cymunedol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion safbwyntiau cryf ar bwysigrwydd goddefgarwch a pharch ac maent yn mynd â'r rhain gyda nhw i'w cartrefi a'u cymunedau ehangach. Mae hyn ar ei amlycaf mewn rhannau aml-ffydd o Gymru. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r cyfleoedd y mae addysg grefyddol yn eu darparu i baratoi disgyblion i fyw mewn cymdeithas amrywiol.' (Estyn 2018)

Yn ogystal, byddai'n ddefnyddiol atgoffa ysgolion am fudd cyfathrebu effeithiol yn gysylltiedig ag ACRh fel y gall rhieni a gofalwyr ennill dealltwriaeth dda o ehangder a phwysigrwydd y rhan hon o'r cwricwlwm. Mae rhai ysgolion eisoes yn rhoi sesiynau defnyddiol iawn i rieni/gofalwyr sy'n esbonio cynnwys y cwricwlwm a sut mae'n cael ei addysgu, ac maent yn rhoi cyfleoedd i rieni/gofalwyr weld adnoddau'r cwricwlwm a thrafod y cynnwys neu'r ymagwedd. Yn ein hadroddiad ['Adolygiad o addysg perthnasoedd iach'](#), rydym yn nodi:

'Mae lleiafrif o ysgolion yn gwahodd rhieni i gymryd rhan mewn gweithdai i edrych ar y deunyddiau a ddefnyddir yn ystod gwersi ARhPh [Addysg Rhyw a Pherthnasoedd]. Mae'r ysgolion hyn yn annog rhieni i drafod y cynnwys, a rhannu eu barn am yr adnoddau. Mae hyn yn galluogi'r ysgolion hyn i gyfleu eu gwerthoedd ar gyfer ARhPh gyda rhieni yn effeithiol. Mae'n sicrhau bod rhieni'n deall pwysigrwydd gwersi ARhPh hefyd.'

### **Ysgolion**

Bydd ar ysgolion angen arweiniad clir a chymorth i gynllunio cwricwlwm AG sy'n berthnasol i fro'r disgyblion, ond sydd hefyd yn adlewyrchu natur amlddiwylliannol ac aml-ffydd Cymru a'r byd yn ehangach.

Mae enghraifft o'r angen hwn i'w gweld yn y diffygion a amlygwyd mewn addysgu AG yn bresennol, yn adroddiad 2018 Estyn:

'Mewn rhai ysgolion gwledig, nid oes gan ddisgyblion ddealltwriaeth gref fod Cymru yn wlad amlddiwylliannol, aml-ffydd ac maent yn credu bod pobl â gwahanol grefyddau yn byw mewn gwledydd eraill yn unig'. (Estyn 2018)

Mae angen i arweinwyr ysgolion a staff ddeall eu cyfrifoldeb am sicrhau bod disgyblion yn cael AG amlblwyfol, o ansawdd uchel. Byddai'n fuddiol pe bai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol yn ystyried hyn fel rhan o'u strategaeth

dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd. Hefyd, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cyfrif yn dda am yr angen am adnoddau priodol ar gyfer dysgu ac addysgu, fel fframwaith ategol AG.

Mae Estyn yn croesawu'r cynnig y bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi arweiniad statudol ar ACRh mewn ffordd sy'n briodol i oedran ac yn addas yn ddatblygiadol ar gyfer dysgwyr. Mae'n bwysig bod y fersiwn ddiwygiedig o'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi arweiniad priodol i ysgolion i'w helpu i ddeall lle ACRh yn y cwricwlwm fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd. Byddai ysgolion yn elwa o arweiniad clir ac ymarferol ychwanegol am ehangder yr hyn y maent yn ei addysgu a sut y gallent fynd ati i'w addysgu. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at ein hymateb i gwestiwn 2.

## **Cwestiwn 2 – Pa gymorth, gwybodaeth ac arweiniad y byddai ei angen pe bai'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu?**

Defnyddiwch y gofod isod ar gyfer eich sylwadau:

### **AG**

Mae tystiolaeth o adroddiad thematig Estyn ar AG yn 2018 yn awgrymu y dylai cymorth i ysgolion ganolbwyntio ar ddysgu proffesiynol. Yn benodol, dylai'r cymorth hwn ganolbwyntio ar yr ymagwedd amlblwyfol at addysgu AG, gwybodaeth am y pwnc a'r gallu i ymdrin â materion sensitif. Mae'r canfyddiadau canlynol yn ategu'r farn hon.

'Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol briodol am addysg grefyddol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o athrawon yn ofni y gallent 'ddweud y peth anghywir' wrth addysgu crefyddau heblaw Cristnogaeth, yn enwedig pan fydd eu gwybodaeth yn llai sicr. O ganlyniad, mae profiadau dysgu disgyblion am ffydd heblaw Cristnogaeth yn fwy cyfyngedig.' (Estyn 2018)

'Yng nghyfnod allweddol 2, mewn tua hanner o ysgolion, nid yw'r athro dosbarth arferol yn addysgu addysg grefyddol. Mae aelod arall o staff (athro neu gynorthwydd addysgu) sy'n cyflenwi yn ystod amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA) yn addysgu addysg grefyddol bob wythnos. Mewn rhai ysgolion, mae athrawon yn aml yn gadael gwersi addysg grefyddol i athrawon cyflenwi eu haddysgu.' (Estyn 2018)

'Yng nghyfnod allweddol 3, yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cyfuniad o athrawon arbenigol ac athrawon cymwys nad ydynt yn rhai arbenigol yn addysgu gwersi addysg grefyddol. Mewn ychydig o ysgolion yn unig y caiff yr holl wersi addysg grefyddol eu haddysgu gan athrawon arbenigol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r cynllun gwaith cynhwysfawr ar gyfer addysg grefyddol a'r cymorth parhaus gan yr arweinydd pwnc yn galluogi athrawon nad ydynt yn arbenigol i addysgu'r pwnc yn ddigonol.' (Estyn 2018)

### **Dysgu Proffesiynol**

'Yn y rhan fwyaf o ysgolion, cyfle cyfyngedig iawn a gaiff athrawon i elwa ar ddysgu proffesiynol ar gyfer addysg grefyddol. Mae awdurdodau lleol a chonsortia

rhanbarthol yn cynnig ychydig iawn o ddysgu proffesiynol arbenigol mewn addysg grefyddol ar gyfer athrawon neu arweinwyr pwnc. Ychydig o ysgolion cynradd yn unig a lleiafrif o ysgolion uwchradd sy'n derbyn cymorth a her yn benodol ar gyfer addysg grefyddol gan awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol.' (Estyn 2018)

'Lleiafrif o ysgolion uwchradd yn unig sy'n cael unrhyw gymorth allanol gan yr awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol. Mewn consortia lle cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i arweinwyr pwnc rannu adnoddau a datblygu cynlluniau gwaith, dywed athrawon fod y cyfarfodydd hyn yn eu helpu i wella arfer yn eu hysgol. Yn yr ysgolion prin lle mae athrawon yn rhan o'r CYSAG lleol, cânt y wybodaeth fwyaf cyfoes am waith y grŵp. Fodd bynnag, mae athrawon mewn lleiafrif o ysgolion yn gwneud ychydig iawn o ddefnydd o'r wybodaeth a ddarperir gan eu CYSAG lleol.' (Estyn 2018)

### **Dogfennau**

Mae Estyn yn croesawu datblygiad y fframwaith ategol ar gyfer AG, sydd wrthi'n cael ei ysgrifennu. Teimlwn y bydd ysgolion yn elwa o arweiniad sy'n ategu dysgu ac addysgu AG sy'n amlblwyfol ac o ansawdd uchel.

### **ACRh**

Yn gynt eleni, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar arweiniad ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Rhoddodd Estyn ymateb llawn i'r ymgynghoriad hwn, sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn hefyd o safbwynt ACRh. Yn fyr, nodom y byddai'r arweiniad yn elwa o:

- Rhoi ffocws cryfach ar gysyniadau hawliau, hunaniaeth, rhywedd, rhyw, perthnasoedd, hunaniaeth rywiol, cydsyniad, rhagfarn, trais a gwahaniaethu
- Darparu mwy o fanylion am sut gallai'r ymagwedd ysgol gyfan at ACRh gyd-redeg â hunanwerthusiad ysgol a'i chynllunio ar gyfer gwella
- Darparu rhagor o fanylion am sut mae'r disgwyliadau newydd ar gyfer ACRh yn cyd-fynd â diwygio'r cwricwlwm
- Cadarnhau sut mae disgwyl i ysgolion ddylunio cwricwlwm lleol sy'n gyson â'r disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer ACRh
- Cadarnhau'r cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer ACRh sydd ar gael i athrawon.

Yn ein hadroddiad diweddar ['Iach a hapus – Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion'](#), nodom mai 'ychydig athrawon sy'n ymuno â'r proffesiwn gyda hyfforddiant cefndir sylweddol ym maes datblygiad plant neu'r glasoed, neu'r ffordd orau o gefnogi iechyd a llesiant plant.' Mae'r adroddiad yn argymhell y dylai darparwyr addysg gychwynnol athrawon 'sicrhau bod athrawon newydd wedi'u hyfforddi i ddeall datblygiad plant a'r glasoed a'u bod wedi'u paratoi i gefnogi iechyd a llesiant disgyblion.'

**Cwestiwn 3 – Ein cynnig ni yw na ddylai fod modd i rieni/gofalwyr atal eu plentyn rhag cael gwersi AG neu ACRh. Cyflwynir hyn o fis Medi 2022 i'r holl ddysgwyr cynradd ac i ddysgwyr ym Mlwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd (gan ychwanegu grwpiau blwyddyn ychwanegol bob blwyddyn).**

**A ddylid stopio gallu rhieni/gofalwyr i atal eu plentyn rhag cael gwersi AG ac ACRh dan yr hen gwricwlwm o fis Medi 2022 hefyd? (Dim ond ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 8-11 yn 2022, Blynnyddoedd 9-11 yn 2023, ac ati, y byddai hyn yn cael goblygiadau iddynt.)**

<b>Dylid</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Na ddylid</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siwr</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
--------------	--------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	-------------------------------------

Pam ydych chi'n credu hynny?

Nid oes gennym farn gref am y mater hwn.

Ar y naill law, mae'r cynnig i ddileu'r hawl i dynnu'n ôl yn gysylltiedig â chyflwyno cwricwlwm newydd, a fyddai'n cynnwys AG ac ACRh statudol. Mae'n ymddangos yn rhesymegol, felly, bod yr hawl tynnu'n ôl yn parhau ar gyfer disgyblion sy'n dilyn y cwricwlwm presennol, gyda'r drefn newydd yn dod i rym wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Fel arall, gall fod angen i Lywodraeth Cymru gynhyrchu arweiniad ychwanegol yn gysylltiedig â'r cwricwlwm presennol, yn ogystal ag arweiniad ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Ar y llaw arall, mae tystiolaeth o'n harolygiadau a'n harolygon thematig yn awgrymu mai nifer isel iawn o ddisgyblion sy'n cael eu tynnu'n ôl o AG ac ACRh ar hyn o bryd. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r hyn a ddysgant mewn gwersi AG ac mewn sesiynau sydd, ar hyn o bryd, yn ymdrin â rhywfaint o gynnwys a materion ACRh. Teimlant eu bod yn elwa o'i chyfraniad at eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae'n ymddangos yn synhwyrol, felly, dileu'r hawl i dynnu disgyblion o bob grŵp blwyddyn yn ôl o 2022 ymlaen. Er mwyn hwyluso'r pontio hwn, byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru'n rhoi arweiniad clir i ysgolion ar sut mae hyn yn effeithio ar y cwricwlwm presennol ac, yn holl bwysig, ar sut i gyfleu hyn yn glir ond yn sensitif i rieni a gofalwyr.

**Cwestiwn 4 – Beth sy'n enw priodol ar gyfer 'addysg grefyddol', er mwyn adlewyrchu'r cwmpas ehangach a gynigir ar ei gyfer yn y cwricwlwm newydd?**

<b>Dim newid</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Crefydd, gwerthoedd a moeseg</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Crefyddau a Bydolygon</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Arall (rhowch fanylion)</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
------------------	--------------------------	-------------------------------------	--------------------------	------------------------------	--------------------------	--------------------------------	-------------------------------------

Arall (rhowch fanylion):  
Y rhesymau dros eich dewis:

Cytunwn fod newid i'r enw yn ddymunol i awgrymu newid pwysig yn y meddylfryd ynghylch addysgu crefydd mewn ysgolion, ond nid oes gennym farn gref am yr enw newydd. Mae i'r ddau enw eu rhinweddau, felly hefyd enwau eraill sy'n cynnwys 'athroniaeth'. Mae crefydd ac athroniaeth yn ddisgyblaethau astudio ar wahân, er bod perthynas agos rhyngddynt. Mae'n ddau'n ceisio ateb cwestiynau am fodolaeth pobl a phwrpas bywyd, er enghraifft. Gall bydolygon fod yn seiliedig ar grefydd,



athroniaeth neu gyfuniad o'r ddau. Mae crefydd ac athroniaeth yn llywio credoau, gwerthoedd a moeseg.

Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi newid i enw'r maes hwn o'r cwricwlwm i adlewyrchu'r cwmpas ehangach a gynigir yn y cwricwlwm newydd. Dylai'r unigol, 'crefydd', gael ei ddefnyddio yn y teitl ac nid y lluosog, 'crefyddau', i sicrhau y dylai'r pwyslais fod ar y cysyniad o 'grefydd' y gellir ei enghreifftio trwy wahanol grefyddau, yn hytrach na chanolbwyntio ar grefyddau ar wahân. Mae'n bosibl mai canlyniad anfwriadol defnyddio'r gair 'crefyddau' fyddai addysgu crefyddau ar wahân ac, o bosibl, canolbwyntio ar y gwahaniaethau rhwng credoau crefyddol, yn hytrach na'r hyn sy'n debyg a'r cydgysylltiadau rhyngddynt.

Dylai Llywodraeth Cymru bwysleisio lle pwysig AG ym maes dysgu a phrofiad y dyniaethau yn y cwricwlwm newydd. Gellid dadlau bod cwmpas ehangach y maes hwn eisoes wedi'i ddal yn y maes dysgu a phrofiad hwn yn ddigonol yn barod. Mae'r cyflwyniad i arweiniad drafft maes dysgu a phrofiad y dyniaethau yn datgan:

'Mae'n bwysig fod dysgwyr yn myfyrio ar effaith eu gweithredoedd a gweithredoedd pobl eraill, a sut y dylanwadir ar y gweithredoedd hyn gan ddehongliadau o hawliau dynol, gwerthoedd, moeseg, athroniaethau, a safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Trwy wneud hyn byddant yn dod i ddeall, parchu a herio amrywiaeth o fydolygon...'

'Wrth iddyn nhw archwilio eu hardal leol a Chymru, yn ogystal â'r byd ehangach, ddoe a heddiw, gall dysgwyr ddatblygu sail gadarn o wybodaeth am gysyniadau daearyddol, hanesyddol, crefyddol, anghrefyddol, busnes, ac astudiaethau cymdeithasol, ynghyd â dealltwriaeth ohonyn nhw.'

Bydd gan ddysgwyr fan diogel i drafod a myfyrio, sy'n caniatáu amser i archwilio'u safbwyntiau personol tuag at fydolygon crefyddol ac anghrefyddol, heriau moesegol a materion cynhwysiant cymdeithasol. Dywed datganiadau 'Yr hyn sy'n bwysig':

'Bydd dysgwyr yn archwilio amrywiaeth o gredoau ac athroniaethau am y byd naturiol, a sut mae'r rhain yn dylanwadu ar y modd y mae pobl yn rhyngweithio â'r byd.'

'[Caiff dysgwyr] eu hannog hefyd i archwilio – a meithrin dealltwriaeth oddefgar ac empathetig – o'r amrywiol gredoau, gwerthoedd, traddodiadau ac egwyddorion sydd wrth wraidd ac yn llywio cymdeithas ddynol.'

'Gall cwestiynu a gwerthuso ymatebion i heriau a chyfleoedd ... helpu dysgwyr i ddatblygu fel dinasyddion byd-eang hunanymwybodol, gwybodus ac egwyddorol sy'n myfyrio'n feirniadol ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain.'

Mae'r iaith yn yr arweiniad drafft i'r maes dysgu a phrofiad hwn yn cyfeirio'n amrywiol at, er enghraifft:

- safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol
- bydolygon crefyddol ac anghrefyddol
- cysyniadau crefyddol ac anghrefyddol
- credoau

- traddodiadau
- gwerthoedd
- egwyddorion
- heriau moesegol
- athroniaethau

**Cwestiwn 5 – Hoffem glywed eich safbwyntiau am yr effeithiau y byddai peidio â chynnwys hawl i dynnu plant allan yn y cwricwlwm newydd yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, ac ar y canlynol yn benodol:**

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) trin y Gymraeg mewn ffordd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fydd, yn eich barn chi? Sut gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Nid ydym yn disgwyl y bydd dileu'r hawl i dynnu'n ôl yn y cwricwlwm newydd yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae angen ystyriaeth bellach i sicrhau na chaiff darpariaeth ac adnoddau AG cyfrwng Cymraeg eu trin yn llai ffafriol na darpariaeth cyfrwng Saesneg.

**Cwestiwn 6 – A fydddech gystal ag esbonio hefyd sut y byddai modd llunio neu newid y cynllun arfaethedig hefyd er mwyn cael:**

- i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg mewn ffordd lai ffafriol na'r Saesneg
- ii) dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg mewn ffordd lai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Teimlwn nad oes gan hawl rhieni i dynnu'u plant yn ôl, p'un a fydd hyn yn parhau neu'n cael ei dileu, yn cael unrhyw effaith amlwg, yn gadarnhaol neu negyddol, ar y defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae angen ystyriaeth bellach i sicrhau na chaiff darpariaeth AG cyfrwng Cymraeg ei thrin yn llai ffafriol na darpariaeth cyfrwng Saesneg, gan sicrhau yn benodol fod unrhyw adnoddau a gynhyrchir i ategu addysgu AG yn cael eu rhyddhau yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd.

**Cwestiwn 7 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, a fydddech gystal â defnyddio'r lle hwn er mwyn adrodd amdanynt.**

Mae angen i ysgolion drafod y mater hwn gyda rhieni. Bydd gofyniad i ysgolion drafod â dysgwyr a rhieni i ddatblygu'u cwricwlwm lleol a dylent sicrhau eu bod yn bwrw golwg ar AG.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y  rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych pe bai eich ymateb yn anhysbys, ticiwch y blwch: